

Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili

**Adolygiad o Gynnydd
yn erbyn Safonau
Gofal Iechyd Cymru –
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Hydref 2007

Cynnwys

1.	Rhagarweiniad a Chyd-destun.....	1
2.	Proses Asesu 2006-07	5
3.	Golwg Gyffredinol ar Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili.....	9
4.	Casgliadau	
	▪ Profiad y Claf	11
	▪ Canlyniadau Clinigol.....	23
	▪ Llywodraeth Gofal Iechyd	27
	▪ Iechyd y Cyhoedd.....	43
5.	Y Camau Nesaf.....	47

Atodiadau

Atodiad 1: Diffiniadau o'r Lefelau o Aeddfedrwydd	49
Atodiad 2: Crynodeb o'r Lefelau o Aeddfedrwydd fesul Safon.....	51
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl y Lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.....	57
Atodiad 4: Rhestr Termau.....	61

1. Rhagarweiniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru er mwyn rhoi prawf ar hunanasesiad perfformiad Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Addysgol Caerffili 2006-2007 yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru* a'i ddilysu.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Gosododd y rhain fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a chyrrff eraill oedd mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol a safonol ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf ac yn bwysicaf mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu bwriadu i sicrhau'r lefelau uwch o ofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru'r hawl rhesymol i'w disgwyl ac yn y ffordd honno i ddarparu sylfaen y gall cyrrff gofal iechyd adeiladu arni a chyrraedd y disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion a eglurwyd yn strategaeth 10-mllynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae gofyn i'r holl gyrrff gofal iechyd yng Nghymru gymryd y safonau i ystyriaeth wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, waeth beth fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn gosod 32 o safonau dan bedwar maes. Mae pob maes yn deillio o werthoedd craidd a ddylai fod yn sail i gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon o fewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn datgan y canlynol:

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y

cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn sefydlu'r canlynol:

Bydd y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth gwaith ymchwil a gaiff ei asesu'n briodol ac yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn gwneud y canlynol yn eglur:

Bydd gan Ddarparwyr a Chomisiynwyr gofal iechyd systemau yn eu lle sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth. Bydd arferion gwaith yn eu lle i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan y canlynol:

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiaeth

1.5. O fis Ebrill 2007, bydd gofyn i sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiad yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd a gwneud datganiad cyhoeddus blynyddol o sut y maent wedi perfformio

1.6. Gofynnir i sefydliadau gyflwyno'u datganiad a'u dogfennau hunanasesu yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gymryd yr arweiniad o ran

cydlynu'r gwaith o roi prawf ar y dogfennau a'u dilysu, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrediad o ffynonellau data. Eglurir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 yn yr adran sy'n dilyn.

1.7. O fis Ebrill 2008 ymlaen, defnyddir cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau gofal iechyd hefyd i hysbysu Datganiadau'r sefydliadau am Reolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Blwyddyn ddatblygol oedd 2006-2007 pan oedd proses newydd o asesiadau yn cael ei datblygu a'i phrofi. Bu'r pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod y cyfrifoldeb am gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn bendant ar Fyrddau Cyrff Gofal Iechyd ac sy'n cefnogi'r rhaglen lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod cyrff gofal iechyd yn cael eu dal yn gyfrifol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod y cyhoedd yn cael mwy o wybodaeth ynghylch perfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac, yn bwysicach, y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â chyrff gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill datblygodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru broses hunanasesu sy'n rhoi prawf ar berfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae Byrddau'n gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau?
- *Gweithredol/Canlyniadau Clinigol* – sut y sicheir cydymffurfiaeth â'r safonau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*¹ – sut beth yw profiad y defnyddiwr ac a yw'n gwella?

2.3. Gosodwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon a datblygwyd hwy'n offeryn ar y we, sy'n ei gwneud yn bosibl cwblhau'r hunanasesiadau ar-lein a chodi tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddwyd yn erbyn pob cwestiwn. Cefnogir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n rhoi arweiniad defnyddiol ynghylch gofynion pob un o'r 32 safon.

2.4. Gofynnwyd i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran perfformio ar y lefel uchaf yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices

¹ Yng nghyd-destun proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

aeddfedrwydd yn caniatáu asesu perfformiad ar lefel Gorfforaethol, lefel Weithredol/ Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr ar un o bum lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Ymarfer
- Arwain

Rhoddir diffiniad o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd yma yn Atodiad 1.

2.5. Oherwydd mai blwyddyn ddatblygol oedd hon, bu rhaid i gyrrff y GIG gadw o fewn terfynau amser tyn ac roedd gofyn iddynt gyflwyno eu hunanasesiad wedi ei gwblhau i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, dri mis ar ôl i'r offeryn asesu gael ei ryddhau. Llwyddodd BILI Caerffili i gadw o fewn y terfyn amser a hoffem gydnabod y swm mawr o waith, ymdrech ac ymrwymiad a ddangoswyd gan BILI Caerffili i sicrhau bod y terfynau amser wedi eu cyrraedd.

Rhoi Prawf a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu cyflwyniad hunanasesu BILI Caerffili, ac roedd hyn yn cynnwys nifer o gamau:

- *Cam 1* – Tîm o adolygwyr o blith cydweithwyr a llyegwyr yn dilysu'r hunanasesiad wrth y ddesg. Roedd y cam hwn yn cynnwys edrych a oedd y cwestiynau oedd yn cefnogi pob maen prawf wedi eu hateb yn briodol, gweld a oedd tystiolaeth ddigonol a pherthnasol i gefnogi'r ateb a gwerthuso a oedd yr ateb yn ffitio'r sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd safoni drwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu atebion a marciau aeddfedrwydd fesul corff a fesul safon. Roedd y cam hwn yn y broses yn allweddol i sicrhau bod y sgorau yn gyson ac yn safonedig.
- *Cam 3* – Ymweliadau â chyrrff ar eu safle i roi prawf ar agweddau pwysig o brofiad y claf/defnyddiwr.

▪ Yr Ymweliad â'r Safle

2.7. Roedd yr ymweliad â'r safle'n un cam yn nilysu a phrofi hunanasesiad BILLI Caerffili ac fel y dywedwyd uchod roedd yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 19 a 20 Medi 2007 a buom yn hwyluso grwpiau ffocws cleifion a staff.

2.8. At hynny, archwiliwyd y staff o ran y Swyddfa Gofnodi Troseddau (CRB), hyfforddiant a gwerthusiad ar ddiwrnod ein hymweliad. Gellir gweld rhaglen fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar wefan AGIC www.hiw.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9. Ym mis Awst, bu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cyd-drefnu a hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd' yn dwyn cyrff adolygu ac archwilio at ei gilydd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i bwydo i mewn i'r broses o atgyfnerthu asesiad y Safonau Gofal Iechyd. Mae'r uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol yn yr ymgais i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fwy helaeth ar draws cyrff adolygu a bod cynlluniau ar y cyd yn cael eu datblygu ar gyfer archwilio a sicrhau.

3. Golwg Gyffredinol ar Fwrdd Iechyd Lleol Addysgol Caerffili

3.1. Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili (BILI) ar 1 Ebrill 2003. Mae'n gorff statudol, yn cynnwys cynrychiolwyr o amrediad o sefydliadau a diddordebau cymunedol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r BILI yn cynnwys cynrychiolwyr Cyngor y Fwrdeistref Sirol, cyrff gwirfoddol, grwpiau cymunedol ac aelodau lleyg.

3.2. Y Prif Weithredwr sy'n arwain y tîm o staff sy'n ymgymryd â gweithgareddau cyd-drefnu gwaith y sefydliad o ddydd i ddydd.

3.3 Mae'r BILI'n gyfrifol am sicrhau bod pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chwm Rhymini'n cael mynediad at ofal cychwynnol, gwasanaethau yn y gymuned ac mewn ysbytai o ansawdd uchel. Mae'r BILI yn gweithio gyda chyrff sy'n bartneriaid er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd y bobl leol yn cael eu diwallu.

4. Casgliadau – yn Cynnwys Meysydd lle Cafwyd Gwelliant ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S1.2 Bu Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (CCC/PPI) yn rhan allweddol o ddatblygiad a chynllunio strategol y BILI. Mae'r BILI wedi gwneud y canlynol:

- Datblygu Strategaeth a chynllun CCC tair blynedd, sy'n rhoi enghreifftiau o ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol gyda'r cyhoedd.
- Cefnogi amrediad eang o grwpiau CCC.
- Penodi Swyddogion Datblygu Iechyd fel rhan o fentrau Cymunedau'n Gyntaf sy'n cysylltu gyda'r Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC)
- Adroddiadau ar lefel y Bwrdd am foddhad cleifion.

S1.3 Dangosir ymrwymiad y Bwrdd drwy rôl y Cadeirydd fel Hyrwyddwr ac fel Cadeirydd y Grŵp Strategaeth a Chynllunio'r CCC.

S1.4 Gallai'r BILI ddangos ei fod yn datblygu dulliau gweithredol i gyrraedd y safon hon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sefydlu amrediad eang o grwpiau CCC gan gynnwys; er enghraifft, grŵp yn canolbwyntio ar gyflyrau tymor hir ac un arall yn ymwneud ag iechyd meddwl.
- Systemau yn eu lle i gynnig cyfleoedd i CCC gymryd rhan mewn cynllunio gwasanaethau, gan gynnwys, er enghraifft, y rhaglen 'Helpwch Ni i'ch Helpu Chi'.

- Defnyddio model bras o gyfleuster newydd arfaethedig er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd.
- Defnyddio gwefan y BILI a'r 'Llinell Newyddion' i ofyn am farn y cyhoedd.
- Defnyddio posteri amlieithog i annog grwpiau lleiafrifol i roi eu barn.

S1.5 Mae'r ffaith fod y BILI 'n cyfranogi yn y Bartneriaeth Gweithio ar y Cyd yn cynnig cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau a cheisio ac ymateb i farn y gymuned ynghylch gwasanaethau lleol.

S1.6 Fodd bynnag, o ran yr holl ddatblygiadau hyn mae angen i'r BILI werthuso defnyddioldeb yr ymgynghoriadau. Hefyd mae angen i'r BILI fod yn glir ynglŷn â'r modd y mae staff yn cyfrannu at gasglu barn y cleifion.

S1.7 Dywedwyd wrthym fod swyddog CCC y BILI yn gyswilt gwerthfawr rhwng y cyhoedd a'r BILI. Mae'r BILI wrthi'n datblygu ffyrdd o gasglu barn defnyddwyr y gwasanaeth a rhoi newidiadau ar waith yn y gwasanaethau o ganlyniad. Roedd peth tystiolaeth i newidiadau mewn gwasanaethau, oedd wedi eu gwneud o ganlyniad i'r farn a fynegwyd gan gleifion. Fodd bynnag, mae angen i'r BILI ddangos bod barn defnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei dadansoddi yn ôl llinynnau cydraddoldeb oedran, rhyw, anabledd, tras ethnig, daliadau crefyddol a thuedd rywiol ac yn cynnwys cwynion yn ogystal.

S1.8 Cytunwn ag asesiad y BILI o **Ddatblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a) yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth;*
- b) yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c) yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- ch) yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1 Asesodd y The BILI ei hun yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

S2.2 Mae'r Strategaeth Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (SPIGCLI / HSCWB) yng Nghaerffili yn gosod y blaenoriaethau iechyd strategol ar gyfer y

boblogaeth. Drwy ei atebion a'i dystiolaeth, dangosodd y BILI ei fod yn hyrwyddo arfer da ac wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb mynediad.

S2.3 Ceir y dystiolaeth a ganlyn i asesiad y BILI:

- Fe gynhaliodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol (GICC/NPHS), ar ran y BILI, asesiad anghenion ar y cyd gyda'r Awdurdod Lleol (ALI).
- Mae'r egwyddorion Hybu Iechyd yn amlwg ac yn sail i'r Adroddiad Asesu Anghenion Cymunedol.
- Mae'r BILI wedi sefydlu'r systemau i sicrhau arfer gorau (yn nhermau'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC) ar draws amrediad eang o grwpiau proffesiynol.
- Dywedodd staff y BILI wrth AGIC eu bod yn derbyn diweddariadau a rhybuddion cenedlaethol, a'u bod yn gallu defnyddio'r wybodaeth.

S2.4 Mae llawer o agweddau ar y gwaith uchod yn cael eu monitro'n fisol mewn perthynas â gofal cychwynnol, ond mae angen i'r BILI hefyd ddarparu tystiolaeth sut y mae'n monitro gofal eilaidd mewn modd tebyg.

S2.5 Mae'r Cylchlythyr Cleifion, 'Llinell Newyddion', a gyhoeddir gan y BILI, yn ffynhonnell dda o wybodaeth ac fe'i danfonir am ddim i bob tŷ. Fodd bynnag fe ddywedodd cleifion a ddaeth i'n grŵp ffocws eu bod yn cael anhawster i gael mynediad at Feddygon Teulu, gan nad oedd meddygfeydd yn gwneud apwyntiadau ond ar ddiwrnod yr angen, ac roedd yn rhaid i gleifion ffitio hyn i mewn o gwmpas gwaith. At hynny, dywedwyd wrthym gan ddefnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl a ddaeth i'r grŵp ffocws Cleifion, y teimlent y gallai'r BILI wneud rhagor o ran sicrhau eu bod hwy'n cael cefnogaeth ddigonol.

S2.6 Cytunwn fod y BILI yn **Datblygu** ar bob un o dair lefel y safon hon, ond ei fod angen mynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod, y tynnwyd sylw atynt gan grŵp ffocws y cleifion.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/ Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S3.2 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau misol am berfformiad gwasanaethau gofal eilaidd o ran Damwain ac Argyfwng (A&E), derbyniadau meddygol brys ac ail dderbyniadau ac amseroedd ymateb yr ambiwlans. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y darparwyr yn gwella eu gwasanaethau os ydynt yn syrthio'n fyr o'r targed.

S3.3 Dyfynnwyd yr enghreifftiau canlynol i gefnogi'r asesiad hwnnw:

- Rhoddir gwybod i'r staff sut y maent yn perfformio yn erbyn targedau mynediad brys cenedlaethol drwy'r Tîm Rheoli.
- Mae'r BILI yn cynnal cyfarfodydd misol ar gyfer yr holl staff a elwir (Briff Craidd).
- Mae'r BILI'n comisiynu oriau agor fferyllfa ychwanegol er mwyn sicrhau bod fferyllfa argyfwng ar gael gyda'r nos, ar y penwythnos ac ar Wyliau'r Banc.

S3.4 Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym, ar wahân i arwyddion perfformiad ariannol, nad yw'n ymddangos fod yna system adolygu ar gyfer ansawdd neu arfer gorau mewn gwasanaethau gofal eilaidd. Dylai'r BILI fynd i'r afael â'r mater hwn yn ei gynllun gwella.

S3.5 Gyda golwg ar sicrhau bod y cleifion a'r cyhoedd yn cael gwybod am dargedau brys:

- Mae cyfarfodydd Bwrdd y BILI yn agored i'r cyhoedd.
- Mae'r BILI'n cyhoeddi cylchlythyr, sy'n cael ei ddanfôn am ddim i bob cartref.
- Cyhoeddir gwybodaeth ar wefan y BILI.

S3.6 Cytunwn ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a) yn hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b) yn parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c) yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;*
- ch) yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr

S4.2 Gall y BILI ddylanwadu ar ddatblygiadau newydd mewn adeiladau gofal iechyd, er enghraifft:

- Ei Strategaeth Ystadau Gofal Cychwynnol Integredig,
- Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol,
- Rhan mewn datblygu Achosion Busnes Cyfalafol ar gyfer datblygiadau gofal eilaidd.

S4.3 Mae'r BILI wedi sefydlu dulliau rheoli, megis yr Offeryn Monitro'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA), i sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd yn cydymffurfio â gofynion statudol. Fodd bynnag, mae ar y BILI angen dangos gwelliant yn y broses fonitro gyda golwg ar Iechyd a Diogelwch (I a D) mewn adeiladau gofal cychwynnol.

S4.4 Caiff sylwadau'r staff ynghylch ansawdd yr amgylchedd gofal eu cefnogi a'u cydnabod drwy gyfrwng y Fforwm Partneriaeth Staff. Nododd y BILI yr angen i gynorthwyo meddygfeydd i gydymffurfio â rheoliadau I a D. Fodd bynnag, gwan oedd y dystiolaeth i gefnogi gweithredu hyn yn ymarferol. Cytunwn felly fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Canlyniadau Clinigol.

S4.5 Defnyddiodd y BILI Fforymau Cleifion a grwpiau eraill yn llwyddiannus i gasglu barn y cyhoedd am gynllun arfaethedig yr ysbyty newydd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gwan oedd y dystiolaeth a ddarparwyd ynglŷn â sicrhau bod defnyddwyr a chleifion yn ymwybodol o ofynion diogelwch ac yn cydymffurfio â hwynt. Yn ychwanegol, mae ar y BILI angen sicrhau yr adroddir am yr holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â ffactorau amgylcheddol. A derbyn yr uchod ni allwn gytuno ond ar asesiad o **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd

- a) yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b) yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn;*
- c) yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

S5.2 Mae'r BILI yn datblygu cyfeiriad strategol ar gyfer monitro glanweithdra amgylchedd gofal yr ysbyty. Mae angen i'r BILI nodi'r staff sy'n gyfrifol ac yn atebol am fonitro glanweithdra a haint ar lefel y Bwrdd. Mae angen rhoi sylw i dystiolaeth o ymweliadau monitro â gofal cychwynnol, sut y mae gwybodaeth yn cyrraedd y Bwrdd a beth yw ei weithredoedd i sicrhau gwelliannau.

S5.3 Mae'r BILI yn cynnal archwiliadau o safleoedd meddygon teulu'n flynyddol ac yn gwirio glanweithdra'r amgylchedd. Fodd bynnag, nid oes system gadarn i archwilio hylendid yr ysbytai y mae'n comisiynu gwasanaethau ganddynt. Mae cynlluniau yn eu lle i gefnogi staff cartrefi nyrsio gyda datblygiad ar faterion glanweithdra. Mae'r BILI yn cynnig Pecyn Addysgu Rheoli Haint i feddygfeydd. Fodd bynnag, aneglur yw llinellau atebolrwydd y BILI gyda golwg ar y safon hon. Er bod y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (FfACh / QOF) yn eithaf manwl, mae peth diffyg manylder o ran glanweithdra a chynnal a chadw.

S5.4 Mae'r BILI wrthi'n sefydlu systemau i alluogi defnyddwyr i adrodd am faterion amgylcheddol wrth y BILI. Fodd bynnag, mae'n aneglur beth fyddai'r broses ar gyfer

cymryd camau ynghylch unrhyw faterion fyddai'n cael eu codi. Gyda golwg ar gyfrifoldeb y BILI dros gomisiynu gofal eilaidd, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn bryderus ynghylch y lefelau amrywiol o lanweithdra mewn ysbytai.

S5.5 Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol /Canlyniadau Clinigol ond yn **Ymateb** yn unig ar lefel Defnyddiwr y Gwasanaeth.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a) *yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b) *yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth;*
- c) *rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth i drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S6.2 Mae'n eglur bod amrywiaeth yn sail i bolisiâu'r BILI, yn arbennig y Strategaeth Gyfathrebu. Dengys y dystiolaeth a gyflwynwyd fod y BILI yn cydnabod ac yn hybu agweddau rhagweithiol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth o ran y staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd wedi ystyried rheolaeth rhaglen Amrywiaeth a Chydraddoldeb y BILI er mwyn cynyddu ei heffaith ac mae'n datblygu systemau i ganiatáu i rieni drafod eu dewisiadau gofal. Fodd bynnag, mae angen rhagor o dystiolaeth ynghylch y wybodaeth a roddir i gleifion yn yr adroddiad hwn.

S6.3 Roedd yn dda gennym nodi bod y BILI :

- Yn hybu ymarfer heb ddefnyddio jargon,
- Yn cefnogi grwpiau cleifion arbenigol dwy gynadleddau, er enghraifft cynhadledd cleifion diabetes
- Yn sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar gael, iaith arwyddion yn ogystal â darparu cyhoeddiadau mewn Braille, print bras a sain,

- Yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus i roi gwybodaeth am ddatblygiadau yn y gwasanaeth,
- Yn annog sefydlu grwpiau cleifion ym meddygfeydd meddygon teulu.

S6.4 Mae'r BILI yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael drwy gylchlythyrau, y wefan a grwpiau cleifion. Mae gan y BILI rai prosesau yn eu lle i fonitro effeithiolrwydd y dulliau cyfathrebu hyn. Ond dywedai cleifion wrthym mai amrywiol oedd ansawdd y wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am eu cyflwr, ac mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i dystiolaeth o ymateb i anghenion pobl anabl. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILI ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr ond yn **Ymarfer** ar y lefel Weithredol/ Canlyniadau Clinigol.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

S7.2 Mae'r BILI yn cymryd rhan yn y Rhaglen Cleifion Arbenigol (RhCA) dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru. At hynny, mae'r BILI yn neilltuo adnoddau i raglenni clefydau penodol megis y Rhaglen Diabetes X-pert a'r Grŵp Anadlu'n Rhwydd ar gyfer problemau resbiradol. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a geir i gyfeiriad strategol neu i ddulliau eraill o gynnwys y cleifion mewn cynllunio gofal a hunanofal. Ystyriwn felly mai **Ymateb** yn unig y mae'r BILI ar y lefel Gorfforaethol. Ers yr hunanasesiad, mae'r BILI wedi sefydlu Grŵp Llywio RhCA i 'ddiffinio a gweithredu cyfeiriad strategol ar gyfer hunanreolaeth y claf'.

S7.3 Mae'r BILI wedi penodi cyd-drefnydd RhCA i roi cyrsiau i gleifion, ond mae yna amheuaeth ynghylch y gallu ar ôl 2007-08. Mae'r tiwtor RhCA yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i 'diwtoriaid' gwirfoddol. Bu'r rhaglen RhCA yn cael ei gwerthuso. Cytunwn felly gydag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol.

S7.4 Ystyriwn fod y BILI yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn bryderus iawn fod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o rai gwasanaethau, e.e. Adferiad Gofal Cardiaidd. Ymddengys gwerthusiad y RhCA i fod yn cynnwys holiaduron cleifion ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth sut y gweithredwyd ar ganlyniadau'r arolygon hyn. Mae angen i'r BILI sicrhau ei fod yn gwerthuso profiad y defnyddwyr, yn arbennig o ran y RhCA.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a) *bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b) *bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c) *yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; ac*
- ch) *bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr. Cytunwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Canlyniadau Clinigol. Mae'r BILI wedi gwneud y canlynol:

- Datblygu Polisi Cydsynio drafft sy'n cydnabod urddas a pharch y claf.
- Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol (LIC) yn ystyried mynediad at gofnodion cleifion fel rhan o gŵyn.
- Datblygu Polisi Urddas yn y Gwaith ar gyfer Staff.
- Llofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (CRhGBC/WASPI).

Mae angen i'r BILI werthuso effeithiolrwydd ei Bolisi Urddas yn y Gwaith a pholisïau cysylltiedig eraill.

S8.2 Mae'r BILI yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ar faterion cydsynio, ond mae angen iddo sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn yr hyfforddiant hwn a hefyd sicrhau bod yr hyfforddiant yn mynd i'r afael â materion urddas a pharch. Mae'r BILI yn casglu barn staff drwy arolwg y staff. Y Cyfarwyddwr Meddygol yw Gwarchodwr Caldicott ac mae arweinwyr wedi eu penodi mewn meddygfeydd Meddygon Teulu.

S8.3 Mae'r BILI wedi datblygu gwybodaeth ar gyfer cleifion ynghylch cydsyniad gwybodus ac mae'n datblygu mecanweithiau i adolygu cydymffurfiaeth yn erbyn safonau CRhGBC a Caldicott. Er ein bod yn cytuno bod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr hefyd, mae angen iddo ddangos yn gliriach pa mor dda yr ymdrinnir â materion ynghylch urddas cleifion a staff.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a) *bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau diet gytbwys; a*
- b) *bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran diet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymwybodol** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S9.2 Fel y rhan fwyaf o Fyrddau ILI, amlygai ymateb Caerffili y gred mai i sefydliadau oedd yn ddarparwyr yn unig yr oedd y safon hon yn briodol. Fel arolygiaeth gofal iechyd mae ymateb o'r fath yn destun pryder i ni gan y dylai comisiynwyr fod yn sicrhau bod gan bob math o sefydliadau, sy'n darparu, systemau a phrosesau i sicrhau y cyflawnir gofynion y safon hon. Dylai Byrddau ILI fod yn monitro hyn fel rhan o'u cyfrifoldebau comisiynu.

S9.3 Ystyriwn felly mai **Ymwybodol** yn unig yw'r BILI ar bob un o'r tair lefel.

S9.4 Cyhoeddir arweiniad pellach ar rôl Byrddau ILI mewn sicrhau bod y safon hon yn cael ei chyrraedd yn barod ar gyfer cyflwyno hunanasesiad y flwyddyn nesaf.

Safon 10

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S10.2 Mae'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (IGCLI/HSCWB) yn mapio anghenion craidd y boblogaeth o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pcedi o dlodi ac amddifadedd yn y Fwrdeistref sy'n cyfrannu at wahanol ganlyniadau iechyd. Ymhlith y camau y mae'r BILI wedi eu cymryd i sicrhau na cheir gwahaniaethu annheg mae gweithredu'r cynlluniau canlynol:

- Cynllun Iaith Gymraeg,
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol
- Cynllun Cydraddoldeb Anabledd
- Strategaeth Gydraddoldeb ac Amrywiaeth integredig
- Cynllun Gweithredu Hawliau Dynol
- Cynllun Gweithredu Lleol Wanless
- Mae cynllun cydraddoldeb dynion a merched wrthi'n cael ei baratoi.

S10.3 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau cynnydd ac adroddiadau diwedd blwyddyn yn erbyn y strategaethau a'r cynlluniau gweithredu hyn. Wrth dendro am wasanaethau newydd mae dogfennaeth y BILI yn cynnwys adran sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil a rhyw.

S10.4 Mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddi staff wedi eu sefydlu i sicrhau bod y safon hon yn cael ei chyrraedd. Mae canllawiau a thafenni awgrymiadau gorau wedi eu rhannu ymhlith staff i gynorthwyo'u hymarfer ac mae gan y BILI raglen weithredol o gyflogi'r anabl sydd wedi ei bwriadu i arwain drwy esiampl. Mae dadansoddiad ystadegol o faterion cydraddoldeb ac anabledd, fesul ward awdurdod lleol, hefyd wedi ei ddosbarthu ymysg staff.

S10.5 Rhoddodd y BILI lawer o enghreifftiau o'r modd y mae wedi ymateb i anghenion grwpiau ac unigolion penodol. Dangosodd hefyd ei fod yn gweithio gyda Meddygon Teulu a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau profiad cadarnhaol ar gyfer cleifion a defnyddwyr ei wasanaethau.

S10.6 Cytunwn felly ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a) *bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b) *y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;*
- c) *bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; ac*
- ch) *bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.*

S11.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/ Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S11.2 Cytunwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol a darparwyd y dystiolaeth ganlynol i gefnogi'r asesiad hwn:

- Caiff y Cynllun Datblygu Llywodraeth Glinigol ei fonitro bob yn ail mis gan y Gweithgor Llywodraethu Clinigol. Ar ôl hynny, adroddir y cofnodion wrth Bwyllgor Llywodraethu Clinigol sydd wedyn yn adrodd wrth y Bwrdd.
- Bydd y BILI yn anfon y wybodaeth ymchwil ddiweddaraf i'r Meddygon Teulu i sicrhau eu bod yn defnyddio'r arfer gorau mewn gofal meddygol.
- Mae'r BILI yn darparu arweinyddiaeth a mentora ar gyfer nyrsys, fferyllwyr a Meddygon Teulu cyflogedig.
- Mae gan y BILI broses achredu ar gyfer ymarferwyr meddygol annibynnol i ddarparu gwasanaethau pellach, megis llawdriniaethau bychain, mewn Gofal Cychwynnol.

S11.3 Fodd bynnag, mae angen i'r BILI ddarparu tystiolaeth fod perfformiad Meddygon Teulu, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig ag iechyd ac ymarferwyr cynorthwyol yn cael ei werthuso'n rheolaidd.

S11.4 Rhoddodd y BILI dystiolaeth o archwiliad clinigol mewn gofal cychwynnol ac mae wedi datblygu Strategaeth Effeithiolrwydd Clinigol ddrafft a Strategaeth Cyfranogi Clinigol ddrafft. Mae nifer o weithgareddau addysgol ar gael i gefnogi datblygiad staff a diweddarau sgiliau ymarfer.

S11.5 Cytunwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol, ond ystyriwn fod angen iddo ddarparu tystiolaeth o'r dysgu a gynnigir i weithwyr proffesiynol cysylltiedig ag iechyd a chontractwyr annibynnol.

S11.6 Ceir tystiolaeth i nifer o fentrau archwilio, er enghraifft, adolygu meddyginiaeth cartrefi nyrsio. Mae'r BILI hefyd wedi darparu tystiolaeth fod yna gyfleoedd i gleifion ac i'r cyhoedd roi adborth a hysbysu diweddariad sgiliau a thechnegau, er enghraifft, drwy Grwpiau Cyfranogol Cleifion. Cytunwn felly ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr hefyd.

Safon 12

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a) yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b) yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c) yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- ch) yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon a chytunwn â'i asesiad.

S12.2 Mae'r BILI wedi datblygu Rhaglen Amrywiaeth a Chydraddoldeb ynghyd â Chynllun Gweithredu. Adroddir am gynnydd hwn wrth y Bwrdd yn flynyddol. Mae canllaw Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd wedi ei ddatblygu ar gyfer staff. Darparodd y BILI enghreifftiau o weithio integredig a phartneriaethau, er enghraifft, mae'n cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gynllun i gefnogi cleifion

sydd wedi eu rhyddhau o'r ysbyty o ran meddyginiaeth. Gallai'r BILI fod wedi cynnwys manylion defnyddiol y strwythurau a'r rolau gwaith a grewyd i gefnogi cydweithredu o'r fath.

S12.3 Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILI yn dangos dull crwn i sicrhau bod triniaeth a gofal effeithiol yn cael eu darparu ar gyfer cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r BILI yn gweithio yn ôl y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC), er enghraifft, y FfGC ar gyfer Pobl Hŷn ac mae'n datblygu llwybrau gofal integredig gyda'r Awdurdod Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Mae angen gwerthuso effeithiolrwydd y rhain.

S12.4 Fel tystiolaeth i'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth gan gleifion, cyfeiriodd y BILI at Raglen y Cleifion Arbenigol a'r ffaith fod y lleoliad wedi ei newid o ganlyniad i werthusiad y defnyddwyr, gan fod y defnyddwyr wedi sôn am anawsterau o safbwynt cludiant. Ystyriwn y cyfarfodydd prosesu cwynion hefyd yn arfer da, gan fod y rhain yn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu. Darparwyd peth tystiolaeth gyfyngedig i'r newidiadau sy'n cael eu gwneud mewn gofal cychwynnol o ganlyniad i gwynion cleifion.

Safon 13

Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/ Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S13.2 Mae Strategaeth Ymchwil a Datblygiad (Y a D) yn ei lle a chyfleuster adnodd YaD ar gyfer nyrsys. At hynny, mae'r BILI yn gweithredu Proses Gofrestru Llywodraeth Ymchwil sy'n gosod y meini prawf y mae angen i gais gydymffurfio â hwy. Y Gweithgor Llywodraethu Clinigol sy'n cymeradwyo ceisiadau. Fodd bynnag, ni ddarparwyd tystiolaeth i'r modd y mae'r Bwrdd yn monitro gweithgaredd Y a D. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Canlyniadau Clinigol.

S13.3 Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos cefnogaeth i weithgareddau ymchwil ac mae'n eglur bod y BILI yn sicrhau yr ystyrir materion cydsynio, amddiffyn data a chyfrinachedd ac yr eir i'r afael â hwynt.

S13.4 Mae'r BILI yn disgwyl i bob cais am ymchwil gynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyfranogaeth cleifion yn y project. Os oes cyfranogaeth, disgwylir i'r cais roi manylion:

- Grwpiau'r cyfranogwyr
- A dderbyniwyd cydsyniad gan y cyfranogwyr yn yr ymchwil
- A oes cofnod wedi ei lofnodi o'r cydsyniad
- Trefniadau ar gyfer cyfieithu
- Manylion ynghylch taliadau neu ad-daliadau costau
- Trefniadau indemniad/iawndal rhag ofn y bydd cyfranogwyr yn cyflwyno hawliad
- Materion amddiffyn data a chyfrinachedd.

S13.5 Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr hefyd.

4.3. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch a iechyd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, y staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parhau'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S14.2 Dengys y dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILI ymrwymiad i sicrhau iechyd a diogelwch cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, y staff a'r cyhoedd. Yn benodol:

- Mae mecanweithiau ar gael ar gyfer monitro ac adolygu'n flynyddol.
- Mae Strategaeth Rheoli Risg wedi ei sefydlu
- Adroddir am ddangosyddion perfformiad allweddol rheoli risg wrth y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

At hynny, mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau chwarterol am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol rheoli risg a manylion yr holl beryglon lefel uchel fel y'u disgrifiwyd yng nghofrestr risg y BILI.

S14.3 Mae nifer o systemau yn eu lle i sicrhau cyfraniad y staff ac i godi eu hymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch. Er enghraifft:

- Mae Fforwm Partneriaeth y Staff yn cadw Iechyd a Diogelwch fel eitem reolaidd ar yr agenda.
- Mae system adrodd glir ar gael ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau a pheryglon.
- Ceir dulliau o hysbysu staff am faterion Iechyd a Diogelwch a sut y maent yn berthnasol iddynt hwy a'u cleifion.
- Mae gwybodaeth am y polisïau, a'r hyfforddiant sut i'w cymhwyso, yn rhan o'r broses gynefino ar gyfer staff newydd ac mae cyfle i gael diweddariad blynyddol.

S14.4 Dywedodd y BILI na fu torcyfraith yn gysylltiedig â diogelwch gofal iechyd yn y 12-18 mis diwethaf, a dywedodd fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn datblygu Rhaglenni Gwella Ansawdd y BILI drwy ymgyrch 'Galwch, os gwelwch yn dda', menter Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (AGDC/NPSA). Er y gallwn gytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol, ystyriwn mai **Ymateb** yn unig y mae ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae hyn oherwydd mai ychydig o ddulliau sydd wedi eu sefydlu i annog cleifion i gymryd rhan yn natblygiad agenda Gwella Ansawdd y BILI.

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a) yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;
- b) yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;
- c) yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac
- ch) yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

S15.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2 Dangosodd y BILI fod cyfleoedd ar gael i gyfathrebu a chodi pryderon drwy'r Gymraeg a'r Saesneg ond ychydig o dystiolaeth oedd bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill. Mae gwasanaethau Braille ac iaith arwyddion hefyd ar gael. Mae'r BILI yn monitro cwynion anffurfiol a ffurfiol, ond mae angen iddo gynnwys monitro cydraddoldeb yn y broses hon. Mae cynllun cefnogi cleifion wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent a Byrddau Iechyd Lleol eraill yn y rhanbarth. Adroddir am fanylion cwynion wrth y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn chwarterol a darperir cofnodion ar gyfer y Bwrdd. Mae'r BILI ar hyn o bryd wrthi'n datblygu 'Polisi Bod yn Agored'.

S15.3 Mae'r BILI wedi clustnodi adnoddau ariannol ychwanegol i wella cynhyrchu gwybodaeth yn ddwyieithog. Ceir hefyd Gynllun Iaith sydd wedi ei gymeradwyo sy'n cefnogi staff i ddysgu'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd yn glir oddi wrth ymateb y

BILI a yw'r wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol wedi ei rhoi i'r staff i gael mynediad at y Llinell Iaith a gwasanaethau cyfieithu eraill.

S15.4 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** a chytunwn â'r asesiad hwn. Cyrhaeddwyd yr amser ymateb o 20-diwrnod ar gyfer 65% o'r cwynion a dderbyniwyd gan y BILI yn 2006-07. Ond dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod yn amharod i gwyno gan eu bod yn byw mewn cymuned fechan ac efallai y gallent gael eu gweld fel 'cleifion trafferthus' a chael anhawster i gael mynediad at wasanaethau yn y dyfodol. Dywedodd defnyddwyr gwasanaeth Iechyd Meddwl, y buom yn siarad â hwy fel rhan o'r grŵp ffocws cleifion, eu bod yn teimlo wedi eu hynysu ac heb dderbyn cefnogaeth gan y BILI. Mae angen i'r BILI fynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r anawsterau hyn, y mae cleifion yn teimlo eu bod yn eu hwynebu.

S15.5 Rhoddodd y rheiny a ddaeth i'r grŵp ffocws cleifion a hwyluswyd gennym adborth cadarnhaol am rôl y Swyddog CCC.

S15.6 Cytunwn ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr ar gyfer y safon hon.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a) i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gallir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;
- b) i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;
- c) dangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau;
- ch) sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.

S16.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

S16.2 Dangosodd y BILI fod systemau wedi eu sefydlu i sicrhau yr adroddir am ddigwyddiadau diogelwch cleifion a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu lledaenu ymhlith y staff. Mae Hwyluswr Risg Gofal Cychwynnol yn adrodd am unrhyw

ddigwyddiadau diogelwch cleifion wrth yr AGDC/NPSA a chaiff y rhain eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae'r BILI yn rheoli digwyddiadau diogelwch cleifion yn unol â'i Bolisi Adrodd am Ddigwyddiadau a Pheryglon a'i Bolisi Bod yn Agored. Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol fesul chwarter. Cynhwysir manylion digwyddiadau hefyd yn Adroddiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol Rheoli Risg a ddarperir ar gyfer y Bwrdd bob chwarter. Lledaenir y gwersi a ddysgwyd drwy gyfrwng Grŵp Cwynion, Digwyddiadau a Chanmolïaeth y BILI.

S16.3 Dywedodd staff wrthym fod lledaenu canllawiau, rhybuddion a pholisïau cenedlaethol yn gweithio'n dda a rhoddwyd enghreifftiau o sut y mae gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad i ddata am ddigwyddiadau. Er enghraifft, newidiadau yn y ffordd y mae meddyginiaeth yn cael ei lapio.

S16.4 Cytunwn fod y BILI yn **Datblygu** ar bob lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 17

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrrff eraill.

S17.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar bob lefel ar gyfer y safon hon.

S17.2 Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod y BILI yn cymryd o ddifrif ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed, ac yn eu cyflawni'n unol â pholisïau a deddfwriaeth genedlaethol allweddol. Mae gan y BILI bolisïau a fframweithiau wedi eu sefydlu ar gyfer gweithio gyda chyrrff eraill drwy gyfrwng y Bwrdd Diogelu Plant Lleol (BDPLI).

S17.3 Mae BILI Caerffili yn un o'r rhai sydd wedi arwyddo polisïau a gweithdrefnau lleol ar gyfer amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), ac fel partner gweithredol ym mhroses POVA o fewn y fwrdeistref, mae'n sicrhau ei fod yn cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd Strategaeth perthnasol, Cynadleddau Achos, ymchwiliadau a phrosesau rhannu gwybodaeth. Mae'r BILI yn gyfranogwr gweithredol ym Mhwyllgor Amddiffyn Oedolion yr Ardal (PAOA).

S17.4 Rhoddir Hyfforddiant Amddiffyn Plant ar Lefel 1 (Cyflwyniad) a Lefel 2 (Codi Ymwybyddiaeth) i aelodau'r BILI a staff gan y Cyd-drefnydd Amddiffyn Plant. Mae'r Cyd-drefnydd Amddiffyn Plant yn aelod o is-grŵp Hyfforddi'r BDPLI a chynigir hyfforddiant aml asiantaeth i holl staff y Bwrdd Iechyd Lleol. Cedwir cofnodion presenoldeb mewn hyfforddiant amddiffyn plant gan y Cyd-drefnydd Amddiffyn Plant a rhoddir Tystysgrif Bresenoldeb i bawb sy'n mynychu.

S17.5 Rhoddir hyfforddiant Codi Ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant hefyd i Feddygon Teulu, Fferyllwyr a Meddygfeydd Optometryddion o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r gwasanaethau Deintyddol yn derbyn Hyfforddiant Amddiffyn Plant gan y Gweithwyr Proffesiynol Dynodedig drwy'r Ganolfan Ôl-radd.

S17.6 Cyfarwyddwr Nyrsio'r BILI yw arweinydd strategol y corff ar gyfer Diogelu Plant, ynghyd â Meddyg Teulu sydd â Diddordeb Arbennig mewn Amddiffyn Plant, a'r Cyd-drefnydd Amddiffyn Plant llawn amser.

S17.7 Ar lefel strategol, mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio'n mynychu'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol ac yn dal swydd yr Is-gadeirydd. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio hefyd yn cadeirio cyfarfodydd Fforwm Amddiffyn Plant Rhyngasiantaethol De-ddwyrain Cymru. Mae'r Cyd-drefnydd Amddiffyn Plant a'r Meddyg Teulu Arweiniol gyda Diddordeb Arbennig mewn Amddiffyn Plant yn mynychu'r rhain hefyd.

S17.8 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n arwain mewn darparu hyfforddiant aml asiantaeth i'r holl grwpiau staff o fewn y Fwrdeistref ar Amddiffyn Oedolion Agored i niwed. Cyflwynir y gweithgaredd hyfforddi yn Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Amddiffyn Oedolion y Rhanbarth.

S17.9 Ni fu gan y BILI ran mewn unrhyw ddigwyddiadau amddiffyn plant yn y 12 mis diwethaf.

S17.10 Cytunwn felly ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Canlyniadau Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 18

Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S18.2 Mae gan y BILI gynllun Parhad Busnes drafft ac mae Memorandwm o Ddealltwriaeth (MODd) wedi ei gytuno rhwng y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC/NPHS) a'r BILI mewn perthynas â gwasanaethau amddiffyn iechyd.

S18.3 Mae Grŵp Clefydau Heintus (Dynol) Gwent wedi ei sefydlu fel rhan o Strwythur Fforwm Gwrthsefyll Lleol Gwent, ac mae Grŵp Aml Asiantaeth Haint Byd-eang y Ffliw Caerffili wedi ei sefydlu hefyd, sy'n cynnwys partneriaid o'r Awdurdod Lleol a'r Sector Gwirfoddol. Datblygwyd Cynllun Gweithredu drafft Haint Byd-eang y Ffliw Caerffili ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan y GICC.

S18.4 Mae cynllun Parhad Busnes y BILI yn canolbwyntio ar y peryglon mawr canlynol: colli adeiladau, colli TG, colli staff. Mewn perthynas â Chlefydau Heintus, mae'r BILI wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau aml asiantaeth i hysbysu datblygiad cynlluniau lleol ac i sicrhau bod cynlluniau yn cydlynu gyda rhai partneriaid megis Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent a'r Awdurdod Lleol.

S18.5 Rydym yn cadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y safon hon.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a) bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- b) bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c) bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael ei reoli; a*
- ch) bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel a chytunwn â'r asesiad hwn.

S19.2 Cyfyngedig oedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILI o fecanweithiau fyddai'n sicrhau'r Bwrdd fod offer meddygol yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac yn cael ei ddiheintio. Fodd bynnag, roedd hi'n eglur fod y BILI yn cydnabod pwysigrwydd rheoli meddyginiaethau o ran eu heffeithiolrwydd clinigol, cyllid a diogelwch cleifion ac mae ei Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau yn disgwyl am gymeradwyaeth y Bwrdd. Mae cytundeb wedi ei sefydlu gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes (BSC) gyda golwg ar gael gwared o wastraff peryglus.

S19.3 Rhoddwyd nifer o enghreifftiau i ddangos sut y ceir cydymffurfiaeth ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol, ac yn eu plith:

- Mae'r BILI yn rhoi llyfr cofnodi diheintio i bob meddygfa yn y Fwrdeistref.
- Mae Meddygon Teulu sy'n rhedeg gwasanaethau fferyllol yn cymryd rhan mewn cynllun ansawdd ac mae'r BILI yn rhoi arweiniad ynghylch rhagnodi.
- Mae'r BILI yn sicrhau bod hyfforddiant a gwybodaeth ar gael i staff a chontractwyr gofal cychwynnol.

S19.4 Mae'r BILI yn monitro targedau Fframweithiau Gwasanaeth a Chyllid (FfGCh) ar gyfer rhagnodi ac mae clinigwyr sy'n rhagnodi yn derbyn adborth am eu meddygfeydd.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S20.2 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn cadarnhau'r canlynol:

- Cyflwynir adroddiadau misol am Adnoddau Dynol i'r tîm Rheoli.
- Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol Adnoddau Dynol ffurfiol wedi eu sefydlu.
- Mae Cynlluniau Datblygu Proffesiynol wedi eu sefydlu ar gyfer yr holl staff ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu bob chwarter.
- Ceir cynlluniau hyfforddi ar gyfer yr holl staff
- Mae Cynllun Hyfforddi BILI Blynyddol yn ei le
- Ceir proses gosod amcanion ac adolygir hon bob chwarter.
- Caiff amcanion y sefydliad eu tywallt i lawr i amcanion cyfarwyddiaethau ac i amcanion unigol pob aelod o staff.
- Mae'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau wrthi'n cael ei weithredu.
- Mae Polisi a Phroses Rheoli (Gallu) Perfformiad wedi eu rhoi yn eu lle
- Cynhelir diwrnodiau i ffwrdd ar gyfer staff ddwywaith y flwyddyn.
- Cyflwynir sesiynau Briffio Craidd misol gan y Prif Swyddog Gweithredol i roi diweddariad i staff ynghylch materion a blaenoriaethau busnes allweddol.
- Rhoddir cyfleoedd i staff wneud sylwadau ar bolisïau, gweithdrefnau a strategaethau newydd.
- Cynhelir arolygon staff

S20.3 Dangosai'r dystiolaeth a gyflwynwyd yr ymddengys fod y staff yn cael eu hannog yn wastadol i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Fodd bynnag, mae angen i'r BILI ddarparu rhagor o dystiolaeth mewn perthynas â chanlyniadau llwyddiannus y gweithgareddau datblygu staff y mae'n ymgymryd â hwy.

S20.4 Mae'r rhan fwyaf ond nid y cyfan o'r staff wedi cael Adolygiad Perfformiad ac mae ganddynt Gynllun Datblygu cytunedig. Serch hynny, mae angen mwy o werthuso ar yr effaith y mae'r buddsoddi mewn datblygu staff yn ei chael ar brofiad y defnyddiwr. Cytunwn fod y BILI yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

- a) *yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b) *yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- c) *yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

S21.2 Mae gan y BILI systemau yn eu lle i sicrhau bod staff proffesiynol wedi eu cofrestru ac yn gymwys i gyflawni eu swyddi ac mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad diweddarau bob chwarter am archwiliadau o'r fath. Cyflwynodd y BILI dystiolaeth hefyd sy'n rhoi manylion ei ymrwymiad i fynd i'r afael â recriwtio staff lleiafrifol.

S21.3 Mae swyddog Adnoddau Dynol y BILI yn cynnal archwiliadau cyn cyflogi a chedwir copïau o'r rhain yn ffeiliau personél. Mae Polisi Disgyblu a Pholisi Cwynion wedi eu sefydlu ac yn egluro'r gweithdrefnau ar gyfer delio â diffygion ymddygiad proffesiynol. Mae'r Bwrdd yn monitro'r modd y gweithredir y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.

S21.4 Nid yw'r holl staff sydd eu hangen wedi cael gwiriadau manylach y Swyddfa Gofnodi Troseddau. Fodd bynnag, cynhelir asesiad risg hyd nes y bydd y gwiriad wedi ei gynnal. Mae angen i'r BILI ddiffinio'r broses ar gyfer delio â diffyg cydymffurfio, er ei fod wedi delio'n briodol â diffygion ymddygiad o du contractwyr. Mae'r BILI yn defnyddio holiaduron staff i gasglu adborth. Mae angen rhagor o dystiolaeth i effaith ymrwymiad y Bwrdd i gydraddoldeb ac amrywiaeth ar broffil y staff a phrofiad y rheiny sy'n gwneud cais am swyddi yn y BILI. Ystyriwn felly fod y BILI yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ond mai **Datblygu** y mae ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 22

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff

- a) *yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b) *yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c) *yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr a chytunwn â'r asesiad hwn.

S22.2 Dywed ymateb y BILI y canlynol:

- Mae wedi datblygu prosesau recriwtio i sicrhau'r Bwrdd bod y staff yn meddu ar y cymwysterau priodol ar gyfer eu gwaith.
- Mae Polisi Gallu wedi ei sefydlu
- Anogir staff i wneud cais am absenoldeb astudio i gefnogi eu datblygiad a chyflawni gofynion hyfforddi mandadol.

S22.3 Mae'r BILI wedi datblygu Cynllun Hyfforddiant, ond ni roddodd dystiolaeth o'r modd y caiff hwn ei fonitro a'i werthuso gan y Bwrdd.

S22.4 Mae cofnodion hyfforddiant staff yn cael eu cadw a'u monitro. Nid yw'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (FfGS/KSF) wedi ei weithredu'n llawn eto. Mae rhaglenni cynefino a phrosesau hyfforddi staff mandadol yn eu lle ac mae'r BILI wedi cynnal Dadansoddiad Anghenion Addysgol ar gyfer nyrsys mewn gofal cychwynnol.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a) brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan*
- b) rhaglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

S23.2 Mae'r strategaethau a'r gweithdrefnau canlynol wedi eu sefydlu gan y BILI :

- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Cwynion
- System Werthuso a Chynlluniau Datblygiad Proffesiynol
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Strategaeth yn erbyn Twyll

S23.3 Mae polisïau a gweithdrefnau'n cael eu cyfleu i staff drwy drefniadau cynefino'r BILI a diwrnodiau adnewyddu corfforaethol.

S23.4 Darparwyd tystiolaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau oedd yn cael eu gweithredu ond mae angen i'r BILI ddangos sut y mae'n sicrhau cydymffurfiaeth. Serch hynny, dywedwyd wrthym yn ystod yr ymweliad â'r safle nad yw'r holl staff wedi cael gwerthusiad nac yn meddu ar gynllun datblygu cytunedig.

S23.5 Rydym yn cadarnhau asesiad y BILI mai **Datblygu** y mae ar bob un o'r lefelau hyn.

Safon 24

Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a) *fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b) *sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol.

S24.2 Mae'r BILI a'r Awdurdod Lleol yn cydweithio i weithredu'r Strategaeth IGCLI / HSCWB bresennol. Bydd y Strategaeth IGCLI nesaf yn rhoi ystyriaeth i faterion yn ymwneud â darparu. Sefydlwyd strwythur ar y cyd i reoli gweithio mewn partneriaeth ar draws rhyngwyneb Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda chynrychiolaeth aml asiantaeth drwy'r cyfan a maes gorchwyl clir a threfniadau adrodd cytunedig.

S24.3 Darparodd y BILI enghreifftiau o weithio ar y cyd, a mentrau ar y cyd, megis Project Iaith Addysg Gwent, Pobl Hŷn â phroblemau iechyd meddwl a phrojectau ail alluogi. Ariennir y projectau hyn drwy grant arbennig ar gyfer gweithio ar y cyd. At hyn, dywed y BILI fod yna dros 40 o brojectau yn cael eu cyllido drwy gynllun gweithredu lleol Wanless.

S24.4 Ymhellach, mae'r BILI wedi gosod staff ac adnoddau yn Cameron House, menter ar y cyd rhwng yr Awdurdod Lleol a'r BILI, i ddarparu gwasanaethau ar gyfer

y rheiny sy'n dioddef o gamdriniaeth yn y cartref. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda golwg ar ddatblygu canolfan adnoddau integredig ar gyfer Gogledd y Fwrdeistref ac mewn datblygu strategaeth gomisiynu gofal cychwynnol, cymunedol a chymdeithasol.

S24.5 Mae ymateb y BILI yn tynnu sylw at y ffaith fod amrediad o benodiadau wedi eu gwneud ar y cyd gan gynnwys:

- Cyd-drefnydd Strategaeth IGCLI
- Hwyluswr IGCLI yn y Sector Gwirfoddol
- Swydd Camddefnydd o Sylweddau
- Swyddog Cymunedau'n Gyntaf
- Swyddog Cefnogi ar y cyd ar gyfer datblygu canolfan adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

S24.6 Mae'r BILI wedi sefydlu amrediad o ddulliau gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu a ddylai sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth, Er hynny, mae angen darparu tystiolaeth i effeithiolrwydd y dulliau hyn. Ystyriwn felly fod y BILI yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ond yn **Datblygu** yn unig ar lefel Profiad y Defnyddiwr

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol.

S25.2 Dangosodd y BILI ymrwymiad i Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gwybodaeth. (RhG a TG):

- Mae Rheolwr RhG a TG neilltuol ar gyfer Gofal Cychwynnol
- Mae nifer o themâu o Hysbysu Gofal Iechyd wedi cael eu gweithredu.
- Mae Strategaeth RhG a TG a Pholisi Diogelwch RhG a TG yn eu lle.

- Caiff RhG a TG Meddygon Teulu a'r defnydd o wybodaeth ei drafod mewn cyfarfodydd Cynllunio a Gofal Cychwynnol mewnol rheolaidd a chyfarfodydd llywodraethu clinigol

S25.3 Mae'r wybodaeth a gesglir gan y BILI ac a ddefnyddir i nodi neu ddylanwadu ar wasanaethau yn cynnwys data FfACh/QOF, data atgyfeirio, arosiadau Damwain ac Argyfwng, oedi mewn trosglwyddo data gofal, amseroedd ymateb yr Ambiwllans, derbyniadau meddygol brys a thargedau trin canser. Defnyddir gwybodaeth fferyllol a'r System Ddadansoddi Gymharol ar gyfer Archwilio Rhagnodi (CASPA) gan y tîm rhagnodi er mwyn dadansoddi a monitro ymddygiad rhagnodi Meddygon Teulu unigol yn erbyn meddygfeydd eraill, BILI Caerffili, Byrddau Iechyd Lleol eraill a Chymru.

S25.4 Mae holl staff y BILI a chontractwyr gofal meddygol cychwynnol yn derbyn hyfforddiant TG yn ôl eu hangen. Mae Thema Strategol 5 yn Strategaeth RhG a TG y BILI yn cynnwys datblygu'r gweithlu yn ôl y ffordd mae technoleg yn datblygu. Darperir digwyddiadau/seminarau hyfforddi rheolaidd gan y BILI ar gyfer yr holl staff a chontractwyr gofal cychwynnol. Mae hyfforddiant wedi ei ymgorffori yn y rhaglen Hyfforddiant a Datblygiad o fewn y BILI, sydd yn unol â gofynion hyfforddiant Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewrop (TYGE) a Rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd LLCC.

S25.5 Mae'r BILI wedi darparu tystiolaeth i gamau a gymerwyd i wella ansawdd data rhwng gofal cychwynnol a gofal eilaidd megis:

- Cynnal archwiliadau clinigol ar systemau data'r Meddygon Teulu
- Project labeli'r Meddygon Teulu i wella ansawdd data rhwng gofal cychwynnol a gofal eilaidd.
- Darparu diwrnodiau adnewyddu i sicrhau bod staff yn cynnal Polisi Diogelwch RhG a TG.

Fodd bynnag, ni ddarparodd y BILI dystiolaeth sut y mae'n archwilio cysondeb a dilysrwydd ei wybodaeth. Felly ystyriwn fod y BILI yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ond ystyriwn mai **Ymateb** yn unig y mae ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:

- a) *bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddarau'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b) *bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol.

S26.2 Mae gan y BILI Strategaeth Rheoli Cofnodion wedi ei sefydlu sy'n seiliedig ar arweiniad cenedlaethol, ac wedi ei seilio ar adroddiadau a deddfwriaeth allweddol. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i adolygu'r ddogfennaeth ac ansawdd y cadw a'r difa.

S26.3 Gwneir staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn ystod y sesiwn gynefino a thrwy ddiwrnodiau adnewyddu. Darperir adroddiad bob chwe mis gan Dîm Rheoli'r BILI ar bob agwedd ar reoli cofnodion.

S26.4 Darparodd y BILI enghreifftiau o newidiadau mewn cadw cofnodion yn dilyn archwiliadau. Er enghraifft, newid mewn arferion gweithio o fewn y Gyfarwyddiaeth Nyrso. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel gan nad oedd tystiolaeth wedi ei chynnwys o fonitro a meincnodi gan y Bwrdd.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da yn eu lle sydd:

- a) *yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b) *yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c) *yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch) *yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- d) *yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

S27.2 Dangosodd y BILI fod:

- Systemau adrodd clir rhwng pwyllgorau gyda golwg ar lywodraethu.
- Gan y Prif Weithredwr y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am drefniadau Llywodraethu.
- Mae'r BILI yn ystyried cyfuno'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a'r Gweithgor Rheoli Risg i ffurfio Grŵp Llywodraethau Risg integredig.
- Ymddengys fod gan y BILI drefniadau rheoli ariannol yn eu lle a bod y Bwrdd yn ystyried adroddiadau ariannol a'i fod yn dadansoddi'r gwariant.
- Anogir staff i gwblhau cofrestr ddiddordebau
- Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Risg, sy'n cymryd mecanweithiau archwilio mewnol ac allanol i ystyriaeth

S27.3 Mae trefniadau Llywodraethu Corfforaethol wedi eu sefydlu ac ymdrinnir â materion Llywodraethu yng ngohebiaeth fewnol y BILI a'r diwrnodiau hyfforddi. Mae hyfforddiant priodol ar gael i gefnogi Llywodraeth Gorfforaethol ac Ariannol.

S27.4 Bydd canlyniadau adroddiadau am ddigwyddiadau ac archwiliadau clinigol yn cefnogi'r agenda llywodraethu. Roedd y BILI yn gallu rhoi tystiolaeth i welliannau a wnaed o ganlyniad. Caiff gwybodaeth gorfforaethol ac ariannol ei chyfleu i staff yn rheolaidd. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon. Mae angen ystyried yn awr sut i integreiddio'r agenda llywodraethu os yw i gyrraedd lefel uwch o aeddfedrwydd.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

- a) yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b) yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c) yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr;*

S28.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar bob lefel ar gyfer y safon hon

S28.2 Mae gan y BILI Gynllun Datblygu Llywodraeth Glinigol sy'n ymdrin â'i holl drefniadau llywodraethu Clinigol. Caiff y cynllun ei adolygu a'i fonitro drwy'r

Gweithgor Llywodraethu Clinigol bob dau fis ac adroddir wrth Bwyllgor Llywodraethu Clinigol bob chwarter.

S28.3 Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Bolisi Llywodraeth Glinigol a cheir Strategaeth Effeithiolrwydd Clinigol a Strategaeth Cyfranogaeth Glinigol yn eu ffurf ddrafft.

S28.4 Dangoswyd sut yr oedd llywodraeth glinigol yn cael ei chymhwyso'n ymarferol drwy'r canlynol:

- Cynrychiolwyr o bob adran o'r BILI ar y Gweithgor Llywodraethu Clinigol
- Hwyluswr Risg Gofal Cychwynnol yn aelod o Gydweithrediad Llywodraethu Clinigol Gofal Iechyd Gwent.
- Arweinwyr Llywodraeth Glinigol wedi eu nodi ar gyfer pob Practis Meddygon Teulu a Fferyllfa.
- Cynnal adolygiadau blynyddol gan ddefnyddio Offeryn Monitro Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol

S28.5 Gan fod llawer o strategaethau llywodraethu clinigol allweddol y BILI ar hyn o bryd ar ffurf drafft, ystyriwn mai **Datblygu** y mae ar y lefel gorfforaethol. Ystyriwn hefyd mai **Datblygu** y mae ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond cytunwn ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol. Darparodd y BILI lawer o enghreifftiau o'r modd y mae staff yn defnyddio llywodraeth glinigol i fonitro a gwella canlyniadau cleifion.

4.4 Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- a) *drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b) *drwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyingor cadarn ar iechyd y cyhoedd*

S29.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel

Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae strwythur partneriaeth wedi ei sefydlu sy'n eistedd o fewn trefniadau llywodraethu'r Strategaeth Gymunedol. Arweinir y trefniadau partneriaeth gan y BILI a'r Awdurdod Lleol gyda hapddalwyr eraill yn cymryd rhan weithredol.

S29.2 Yn 2003 cyhoeddodd y Bartneriaeth Strategaeth sy'n egluro'r nodau a'r amcanion allweddol. Nodwyd pum thema:

- Gwella Iechyd y Cyhoedd
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Ehangu a datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned
- Galluogi pobl i fyw'n annibynnol mewn cymunedau lleol
- Datblygu a chryfhau gwaith atal a'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed

S29.3 Oddi wrth y dystiolaeth mae'n eglur fod blaenoriaethau iechyd cyhoeddus wedi eu cytuno'n lleol, ac mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud yn y gwaith o'u gweithredu.

S29.4 Darparodd y BILI fanylion nifer o ddulliau ac enghreifftiau o'r modd y mae cleifion a'r cyhoedd yn dylanwadu ar raglenni ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a iechyd y cyhoedd.

- Cymryd rhan mewn is-grwpiau
- Y cyhoedd yn cyfranogi
- Fforwm gofalwyr
- Digwyddiadau CCC
- Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf
- Panel Safbwyntiau

Rydym felly'n cytuno ag asesiad y BILI ar gyfer y safon hon.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

- yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac*
- yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Arwain** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S30.2 Darparodd y BILI amrediad amrywiol o broiectau a strategaethau cyfredol sydd wedi eu canolbwyntio ar yr agenda iechyd cyhoeddus a rhoddodd dystiolaeth o amrywiaeth o raglenni hybu. Ymhlith y gweithgareddau a ddyfynnwyd gan y BILI yr oedd y canlynol:

- Canolfan adnoddau hybu iechyd Clefyd Coronaidd y Galon (CHD)
- Rhaglen Anghydraddoldebau mewn Iechyd sy'n cynnwys rhaglen eilaidd atal clefyd coronaidd y galon (CHD)
- Project Cymoedd Iach Townsend sy'n cynnwys mentrau
 - Dewisiadau iach
 - Maethiad
 - Iechyd rhywiol
- Project Cymorth sydd wedi ei gwneud yn bosibl penodi Swyddog Datblygu Iechyd Ieuencid
- Project peilot bwyd a ffitrwydd

S30.3 Dangosodd y BILI gysylltiad clir rhwng canllawiau cenedlaethol a blaenoriaethau lleol, ynghyd â thystiolaeth o fonitro cynnydd.

S30.4 Mae nifer o weithgareddau a rhaglenni wedi eu sefydlu i gynorthwyo cleifion a'r cyhoedd i ddylanwadu ar brojectau clefydau a hybu iechyd sy'n cael eu rheoli ac ar gyfer annog a chefnogi unigolion i gydnabod eu cyfrifoldebau eu hunain

S30.5 Wedi dweud hynny, ni allem ond cytuno ar lefel aeddfedrwydd o fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Canlyniadau Clinigol gan mai ychydig o dystiolaeth a geir o ymarfer newydd sy'n cael ei rannu y tu hwnt i'r BILI. Fodd bynnag, cytunwn â'r BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 31

Mae cyrff gofal iechyd:

- a) *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b) *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c) *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd;*
- ch) *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1 Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Arwain** ar bob lefel. Cyrhaeddodd y BILI y Safon Iechyd Gorfforaethol Aur (CHS) yn 2005 a'i nod yw cyrraedd y Safon Iechyd Gorfforaethol Blatinwm yn 2008. Mae adroddiad yr asesiad yn tynnu sylw at sefydliad cryf o ran ymwybyddiaeth o iechyd yn y gweithle.

S33.2 Penderfynwyd yng nghyfarfodydd Archwilio Cysondeb Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y byddai'r sgorio ar gyfer y safon hon yn adlewyrchu'n uniongyrchol y gwobrau y mae sefydliadau yn eu derbyn am y SIG/CHS. Byddai Aur ac Arian yn

cyfateb i Ymarfer, Efydd yn cyfateb i Ddatblygu. Gan fod yr Ymddiriedolaeth wedi ennill y wobr SIG/CHS Aur rydym wedi asesu'r BILI yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a lefel Profiad y Defnyddiwr.

Mae crynodeb o'r lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon fel y'u haseswyd gan BILI Caerffili drwy ei hunanasesiad a chan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn dilyn profion a gwerthuso, i'w cael yn Atodiad 2.

Y Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i BILI Caerffili gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynllun hwn gan Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, fydd yn monitro ei weithrediad fel rhan o'r trefniadau monitro perfformiad sydd wedi eu sefydlu ar gyfer GIG Cymru. Bydd ar gael ar wefan y BILI.

5.2. Dros y misoedd nesaf bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'n gweithio gyda hapddalwyr i fireinio a gwella'r offeryn asesu ar gyfer y dyfodol ac i beri i'r broses hunanasesu safonau gofal iechyd gydredeg gyda'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd hwn yn integreiddio'r casgliadau o adroddiadau unigol i mewn i drosolwg ar y sefyllfa ledled Cymru. Bydd hyn yn tynnu sylw at y themâu allweddol a'r meysydd risg a danlinellwyd gan broses asesu'r Safonau Gofal Iechyd.

Diffiniadau o'r Lefelau o Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymateb	Datblygu	Ymarfer	Arwain
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y dylid mynd i'r afael â hwy ond yn methu dangos penderfyniadau /gweithredoedd i ddelio â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac mae wedi nodi dewisiadau sy'n cael eu blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol drwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei symud ymlaen ac yn cael ei monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol drwy weithredu ymarfer arloesol sy'n cael ei rannu ar draws y sefydliad a chydag eraill y tu hwnt, gan ei gwneud yn bosibl sicrhau cynladwyedd yn y tymor hir.
Gweithredol	Mae yna ymwybyddiaeth o'r materion y dylid mynd i'r afael â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau ar gyfer delio â hwy	Ceir cydnabyddiaeth o'r materion allweddol y dylid mynd i'r afael â hwy ac mae amrediad o ddewisiadau wedi eu nodi i ddelio â hwy.	Mae camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o'u cymhwyso ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau a ddatblygwyd yn dda wrthi'n cael eu gweithredu ledled y sefydliad, sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol. Ceir tystiolaeth o werthuso a meincnodi yn arwain at welliant parhaus.	Ceir tystiolaeth o ymarfer arloesol sy'n cael ei rannu ar draws y sefydliad a chydag eraill y tu hwnt. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynladwy yn y tymor hir
Profiad y Defnyddiwr	Gwael yn gyffredinol yw profiad yr unigolyn/ion ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth ar gyfer delio â hwy.	Nid yw profiad yr unigolyn/ion yn dda yn gyffredinol er bod dulliau wedi eu datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/ion yn gwella mewn nifer o feysydd, er nad yw hyn yn gyson eto ar draws y sefydliad.	Mae profiad yr unigolyn/ion yn dda yn gyffredinol ar draws pob maes.	Mae profiad yr unigolyn/ion yn ardderchog yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth glir o ymarfer da, y gellir ei rannu.

Crynodeb o'r Lefelau o Aeddfedrwydd fesul Safon

Allwedd

L	Arwain
P	Ymarfer
D	Datblygu
R	Ymateb
A	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 2

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 3

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol /Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 4

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 5

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 6

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 7

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 8

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 9

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	A	↔	A
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	A	↔	A
Profiad y Defnyddiwr	A	↔	A

Safon 10

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 11

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 12

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 13

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	↑	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 14

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 15

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 16

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 17

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 18

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 19

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 20

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 21

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 22

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 23

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 24

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 25

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 26

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 27

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 28

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 29

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 30

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	L	↓	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	L	↓	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D



Safon 31

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D/B		
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	D/B		
Profiad y Defnyddiwr	D/B		


Safon 32

	Sgôr yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	L	↓	P
Gweithredol / Canlyniadau Clinigol	L	↓	P
Profiad y Defnyddiwr	L	↓	P

Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl y lefel Gorfforaethol, y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr




**Sgorau Aeddfedrwydd
y Lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol**



Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno â Sgôr y BILI



Rhestr Termau Allweddol

Archwiliad clinigol – Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn gwerthuso ac yn mesur i ba raddau y maent yn cyrraedd safonau sydd wedi eu pennu ar gyfer eu gwasanaeth.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (AGDC/NPSA) – awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gyd-drefnu ymdrechion y wlad i gyd i adrodd, ac, yn bwysicach, i ddysgu oddi wrth gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth – grŵp o bobl sydd drwy statud yn gyfrifol am benderfyniadau mawr ynglŷn â strategaeth a pholisi ym mhob Ymddiriedolaeth GIG. Fel arfer mae'n cynnwys Cadeirydd Lleyg, pump aelod lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) – cyrff statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, gan sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd cychwynol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal iechyd eilaidd.

Canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les yr unigolyn

Cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n darparu model y gall sefydliad egluro ei weledigaeth a'i strategaeth o'i fewn a'u troi'n weithredoedd. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus ym mherfformiad y sefydliad.

Cronfa Cymru ar gyfer Peryglon (WRP) – cynllun hyder cydgyfrannog ar gyfer yr holl gyrff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff drwy annog a chefnogi perfformiad da o ran rheoli risg ac asesu drwy fesur yn erbyn safonau penodedig.

Cynghorau Iechyd Cymunedol (CIC) – Sefydliadau yn y gymuned nad ydynt yn gwneud elw. Maent yn ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi. Sefydlwyd CIC ym 1992 ac fe'u cychwynwyd er mwyn cryfhau cyfranogaeth gymunedol mewn diffinio polisi gwladol a lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd. Mae CIC yn cynrychioli diddordebau'r cyhoedd yn y GIG ac mae'n rheidwydd statudol ymgynghori â hwy ynghylch newidiadau iechyd yn eu hardal.

Cynllun Oes – Mae'n gosod gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae strategaeth 10 mlynedd wedi ei sefydlu ar gyfer sylweddoli'r weledigaeth honno. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un yn para oddeutu tair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Sicrhau Safonau Uwch; a Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o Safon Byd-eang.

Cynnwys y Claf a'r Cyhoedd (CCC) – strategaeth a fwriadwyd i sicrhau bod safbwyntiau a barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Datganiadau Rheolaeth Fewnol – datganiad ynghylch trefniadau cyffredinol corff y GIG er mwyn cael sicrwydd fod y prif beryglon o fewn y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC/NSF) – canllawiau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar y ffordd i reoli a thrin mathau penodol o glefydau ac afiechydon.

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – mae'n rhoi cyngor i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch rheoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

Gwarchod data – Mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Mae cyfrifoldebau o'r fath yn dod dan Ddeddf Gwarchod Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a fwriadwyd i ddiogelu data a gedwid ynghylch unigolion.

Gwarchodwr Caldicott – uwch glinigwr ym mhob sefydliad GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, oedd yn adolygu sut roedd gwybodaeth cleifion yn cael ei hamddiffyn a'i defnyddio.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i Gymru (GICC/NPHS) – mae'n darparu amrediad llawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus gan geisio: gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd; amddiffyn rhag clefydau presennol, rhai newydd a rhai a ddaw i fod ynghyd â bygythion i iechyd; a chyfrannu at welliant mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Llwybr gofal – Casgliad o gamau triniaeth a gofal wedi eu diffinio, a fwriadwyd i ateb anghenion arbennig pob claf.

Llywodraeth glinigol – fframwaith lle mae sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus a diogelu safonau gofal uchel.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) – rhaglen sy'n caniatáu amser wedi ei warchod i nyrsys ar gyfer arsylwi gofal a darpariaeth gwasanaethau, a chyfweld cleifion ynghylch y gofal a ddarperir. Fe'i bwriadwyd i alluogi nyrsys i ddatblygu a mireinio eu galluedd arwain, gwella sgiliau tîm a threfnu a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

Rheoli haint – set o weithdrefnau i atal haint rhag ymledu, fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer di-haint etc.

Rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gwell gofal ar gyfer cleifion

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith o safonau gofal iechyd cyffredin a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a chyrrff sydd

mewn partneriaeth er mwyn iddynt ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol a safonol ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) – awdurdod iechyd arbennig sy'n rhoi arweiniad i'r GIG a'r cleifion ynghylch meddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Swyddfa Gofnodi Troseddau (CRB) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd er mwyn cynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel drwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth ynghylch cofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa Gofnodi Troseddau'n cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i adnabod ymgeiswyr a all fod yn anaddas ar gyfer math arbennig o waith, yn arbennig gwaith sy'n cynnwys cyswllt â phlant neu aelodau eraill o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) – cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae Ymddiriedolaethau'n cyflogi'r amrediad llawn o weithwyr proffesiynol gofal iechyd gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, etc. Mae Ymddiriedolaethau Llym yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol, mewn ysbytai fel arfer. Mae Ymddiriedolaethau Cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, e.e. nyrsys ardal, ciropodyddion, etc. Mae Ymddiriedolaethau Cyfunedig yn darparu gwasanaethau cymunedol a llym dan yr un rheolwyr.